

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 5 Mai 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng B Tomlins  
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M Lawton, G Lewis, D Morgan, I Reed a'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.

Mr Denfer Morgan (Clerc).

Dechreuodd y cyfarfod am 8.15 y.h.

**Minutes of a meeting of the Council held on Tuesday, 5 May 2015 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Cllr B Tomlins  
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M Lawton, G Lewis, D Morgan, I Reed and County Councillor Dafydd Edwards.

Mr Denfer Morgan (Clerc).

The meeting commenced at 8.15 p.m

**1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr M James ac L Lloyd am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar gais y Cyng Gerallt Lewis, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Bryan Tomlins.

Dywedodd y Cynghorydd Harry Hayfield, gyda bod tŷ ei dadcu a'i famgu ar werth, y gallai symud allan o ardal y gymuned i fyw yn y dyfodol agos ac y byddai'n hapus i dderbyn sylwadau ei gyd-Aelodau os y dylai barhau yn y swydd. Cytunwyd i aros am ddatblygiadau, ac i ystyried y mater ar yr amser priodol.

**2. Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2015.**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.

**3. Materion yn codi o'r Cofnodion.**

**3.1 Gordyfiant Rose Mount**

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Edwards fod y gordyfiant wedi'i glirio gan y perchnogion.

**3.2 Mainc ym Maesgwynne**

PENDERFYNWYD y dylai'r Cyng Gerallt Lewis a'r Clerc fwrw 'mlaen gyda'r mater.

**3.3 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg**

PENDERFYNWYD cysylltu gyda'r

**1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.**

Councillors M James and L Lloyd apologised for their inability to attend the meeting.

At the request of Cllr Gerallt Lewis, Cllr Bryan Tomlins chaired the meeting.

Councillor Harry Hayfield advised the Council that, with his grandparents' house for sale, he may well move out of the community area to live in the near future and would be happy to accept the views of his fellow Members as to whether he should continue in post. It was agreed to await developments and consider the matter at the relevant time.

**2. Minutes of the Meeting held on 7 April 2015.**

The Minutes were confirmed as being correct.

**3. Matters arising from the Minutes.**

**3.1 Rose Mount Overgrowth**

County Councillor Dafydd Edwards reported that the overgrowth had been cleared by the owners.

**3.2 Bench at Maesgwynne**

It was RESOLVED that Cllr Gerallt Lewis and the Clerk proceed with the matter.

**3.3 Tree Stump on Footpath near Llwynteg**

It was RESOLVED to contact the landowner with a view to clearing the

perchennog er mwyn ceisio clirio'r rhwystr.

#### **4. Eiddo**

##### **(a) Adroddiad yr Arolygiad**

Fe adroddodd y Cynghorydd Lawton fod y maes chwarea mewn cyflwr da ar y cyfangyda bron dim sbwriel. Dywedodd y gallai'r twnel elwa o gôt o baent y cytunodd y Cyng Jim Hughes ei wneud.

##### **(b) Clirio Llwybrau Troed**

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi llwyddo dod o hyd i'r gwaith papur er mwyn ei alluogi i geisio am dendrau o fewn yr amser oedd ar gael a PHENDERFYNWYD cysylltu gyda Ground Tech Ltd a gofyn iddynt wneud y gwaith eleni am y pris a godwyd ganddynt llynedd; ac i ystyried y mater ymhellach parthed trefniadau blwyddyn nesaf.

##### **(c) Rhoi Gwyneb Newydd i'r Llwybr Troed ger y Caeau Chwarae**

Fe gynghorodd y Cynghorydd Morgan nad oedd modd cael gafael ar siâl ac ni lwyddwyd i wneud unrhyw waith.

#### **5. Cyllid a Materion Cyflogaeth**

PENDERFYNWYD cadarnhau penodiad Mr Denfer Morgan yn Glecr y Cyngor gan ddechrau ar Ebrill 1af 2015, yn gwithio 5 awr yr wythnos ar Bwynt 24 (£11.19 yr awr), ynghyd â thaliadau allan o boced o £40 y mis er mwyn cydnabod costau defnyddio trydan, teleffonau, petrol ar gyfer teithio ayb. – i'w dalu'n chwarterol.

#### **6. Ymgynghoriadau a Materion Cynllunio**

**(a)** A150209 Sunny Mount, Llanon. Adnewyddu tô, ffenestr dô a simneoedd ac adfer a gwella gofod yr ystafell atig sy'n bodoli eisoes. – Dim gwrthwynebiad.

**(b)** Rhoddwyd y canlynol yn y waled ar gyfer ei ddosbarthu i Aelodau:  
Agenda Cyfarfod Mai o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**(c)** Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Safoni Enwau Lleoedd, gan gynnwys:

obstacle.

#### **4. Property**

##### **(a) Inspection Report**

Councillor Lawton advised that the playground was in overall good condition with hardly any rubbish. He stated that the tunnel could benefit from a coat of paint which Cllr Jim Hughes agreed to do.

##### **(b) Footpath clearing**

The Clerk advised that he had been unable to find the paperwork in order to seek tenders in the time available and it was RESOLVED to approach Ground Tech Ltd and to seek their agreement to undertake the work this year at last year's price; and to consider the matter further in respect of next year's arrangements.

##### **(c) Resurfacing of footpath at Playing Fields Car Park**

Councillor Morgan advised that no shale had been available and therefore no work undertaken.

#### **5. Finance and Employment Matters**

It was RESOLVED to confirm the appointment of Mr Denfer Morgan as Clerk to the Council with effect from 1<sup>st</sup> April 2015, working 5 hours per week at SCP 24 (£11.19 per hour), together with monthly out of pocket expenses of £40 per month to cover the cost of using electricity, telephones, petrol for travelling etc. - to be paid on a quarterly basis.

#### **6. Consultation and Planning Matters**

**(a)** A150209 Sunny Mount, Llanon. Renewal of roof, dormers and chimneys and renovation and improvement of existing attic room area. – No objection.

**(b)** The following was deposited in the wallet for circulation to Members:  
Development Control Committee Agenda for the May Meeting.

**(c)** Ceredigion County Council consultation on Standardisation of Place Names,

Llanon / Llan-non  
Llansantffraed / Llansantffraid  
PENDERFYNWYD ail-ddatgan  
cefnogaeth y Cyngor ar gyfer cadw'r  
enwau Llanon a Llansantffraed ac i  
ddarparu'r Cyngor Sir gyda thystiolaeth i  
gefnogi hwn ar gyfer ei anfon 'mlaen i  
Gomisiynydd y Gymraeg.

## 7. Gohebiaeth

Nodwyd y canlynol:-

- Bwrdd Iechyd Hywel Dda – sesiynau Sgwrs Iach
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddgiad
- Dogfen Tai i Bawb yng Ngheredigion
- Wythnos Glanhau'r Arfordir 8-17 Mai
- Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru 29 Ebrill
- Ymateb Un Llais Cymru i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.

## 8. Unrhyw Fater Arall

8.1 PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau anffurfiol am wastraff a adawyd y tu allan i dŷ a oedd yn cael ei adnewyddu.

### 8.2 Cylchlythyr Cymunedol

PENDERFYNWYD cytuno i gyfrannu £50 i Gylchlythyr Cymunedol Eglwys Llansantffraed ac i ddarparu deunydd newyddion a gwybodaeth l'w gyhoeddi ynddo fe.

9. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Misol**  
Nos Fawrth 4 Gorffennaf 2015.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 y.h.

including:

Llanon / Llan-non  
Llansantffraed / Llansantffraid

It was RESOLVED to re-iterate the Council's support for the retention of the names Llanon and Llansantffraed and to provide the County Council with evidence in support of this for forwarding to the Welsh Language Commissioner.

## 7. Correspondence

To note the following:-

- Hywel Dda Health Board – Let's Talk Health sessions
- Public Services Ombudsman for Wales- Revised Guidance on the Code of Conduct
- Housing for All in Ceredigion document
- Clean Coast Week 8-17 May
- One Voice Wales Area Meeting 29 April
- One Voice Wales Response to the Wales Government White Paper on Reforming Local Government.

## 8. Any Other Business

8.1 It was RESOLVED to investigate informally rubble left outside a house identified at the meeting in connection with house alterations.

### 8.2 Community Newsletter

It was RESOLVED to agree to contribute £50 to the Llansantffraed Church Community Newsletter and to provide items of news and information for publication therein.

9. **Date of Next Meeting – Annual Meeting and Monthly Meeting**  
Tuesday 4 July 2015.

The meeting concluded at 9.30 p.m.